# Myfyrdod yr wythnos 2022-02-10

Fy enw i yw John. Fi yw caplan y Bedyddwyr ac rwy'n rhan o dîm caplaniaeth y brifysgol.

Y Sul yma yw gêm Super Bowl Pêl-droed America, felly rydw i wedi bod yn mwynhau gwisgo fy het NFL yn arbennig. Ni chyrhaeddodd fy nhîm y Super Bowl - fe wnaethom yn arbennig o dda eleni, ond cawsom ein curo yn y rownd gynderfynol. Cawn weld pwy sy'n ennill pan fydd Cincinnati yn chwarae Los Angeles ddydd Sul. Cincinnati yn bendant yw'r rhai dan anfantais

Rydym wrth ein bodd yn cefnogi'r difreintiedig os ydym yn gwylio unrhyw chwaraeon fel rhywun niwtral. Mae'n wych gweld rhywun yn cyflawni rhywbeth yn groes i'r disgwyl. Rwy'n meddwl ei fod yn ein hysbrydoli i feddwl y gallwn ni gyflawni pethau rhyfeddol – os ydym yn ymestyn ein hunain, ac yn cael ychydig o lwc efallai, gall pethau fynd ein ffordd.

Rwyf wrth fy modd â'r stori Feiblaidd glasurol o Ddafydd a Goliath. Roedd Dafydd yn fugail ifanc a orchfygodd y milwr proffesiynol anferth Goliath yn nerth Duw. Dyna Moses wedyn a orchfygodd Pharo'r Aifft, a Daniel yn herio'r dewiniaid nerthol ym Mabilon oedd wedi meddwi ar rym. Ac yn y Testament Newydd dyna ichi hanes Paul yn dadlau efo'r athronwyr yn Athen ar Fynydd Mars hefyd.

Ond mae'n siŵr mai Iesu yw'r arwr annisgwyl mwyaf i gyd. Wrth iddo fynd i'r groes, roedd yn edrych fel ei fod eisoes wedi colli, ond fel Cristnogion, credwn fod Iesu wedi ennill buddugoliaeth fawr i ni yn erbyn drygioni. Gorchfygodd Iesu farwolaeth a phob drwg pan fu farw ar y groes drosom er mwyn inni allu byw ein bywydau heddiw er daioni Duw a hyd yn oed goresgyn marwolaeth yn ein hatgyfodiad – yng Nghrist.

A heddiw, nid ydym yn cael ein galw i ymladd brwydrau corfforol, ond i ymladd brwydrau ysbrydol yn erbyn y drwg yn ein calonnau ein hunain, ac i fod yn bencampwyr daioni yn ein cymdeithas ac yn ein byd heddiw.

Rydym ni'n teimlo dan anfantais weithiau. Fel Dafydd yn erbyn Goliath. Fel y Cincinnati Bengals yn erbyn yr LA Rams. Ond mae nerth Duw gyda ni. Dylem ymddiried yn gyntaf ac yn bennaf yn Nuw beth bynnag fo'r amgylchiadau neu'r canlyniad ymddangosiadol. Dylem wneud pethau yn ei ffordd Ef.

A siarad yn ddynol, roedd Iesu i'w weld wedi'i drechu pan fu farw ar groes, ond trwy ei farwolaeth cafodd Iesu y fuddugoliaeth fwyaf mewn hanes. Ac mae honno'n fuddugoliaeth y gallwn ni gyfranogi ohoni os ydym ni'n ymddiried ynddo Ef ac yn ei ddilyn.

Amen